Rhifyn 16 tudalen_Tud 8 Mehefin.qxd 06/08/2015 12:21 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 37. RHIF 3/4 AWST/MEDI 2015 50c

# Pigion o'r Ŵyl yn Lerpwl (29 Mai i 31 Mai, 2015) i gofio arloeswyr y Mimosa

## *Sylwebaeth gan D. Ben Rees a lluniau gan John G. Williams*

**Nos Wener, 29 Mai yng Nghanolfan y Crynwyr ar thema Y Mimosa**. Trefnwyd Llywydd i bob cyfarfod a siaradwyr dawnus. Ar nos Wener cadeiriwyd gan Roderick Owen (Llywydd Cymdeithas Gymraeg y Ddinas) a chafwyd anerchiadau gan bedwar, yn ddwyieithog gan Dr. D. Ben Rees ar Gefndir y Mimosa, Mrs Susan Wilkinson, Toronto, Canada ar y llong hwyliau a gyflawnodd y gamp, a gan Dr. Arthur Thomas yn Saesneg ar y cefndir yn Lerpwl, y dociau a'r bywyd economaidd. Yna rhoddodd Wayne Jones, Llandeilo hanes y llun gwreiddiol o'r Mimosa ac fel yr oedd ef wedi trefnu cyflenwad o'r printiau i bawb oedd yn dymuno pwrcasu naill ai y print (£150) neu y print mewn ffram hardd am £225. Prynodd nifer ohonom y Mimosa mewn ffram a balch ydym o hynny.



*Siaradwyr Nos Wener*



*Wayne Jones a llun y Mimosa*

Yr oedd ystafell helaethaf y Ganolfan dan ei sang a felly y bu pethau ar hyd y penwythnos. Cannoedd ar gannoedd o bobl frwdfrydig yn cydnabod dewrder y teithwyr, a gweledigaeth Michael D. Jones a'i ddisgyblion.







*Plac ar dŷ Capel yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, lle y ganwyd gŵr y weledigaeth*

*Bedd Michael D. Jones ym mynwent yr Hen Gapel. (Oni ddylid ar fyrder lanhau'r garreg fedd ym mlwyddyn y Cofio? Pwy sydd â chlustiau yn agored yng Nghymdeithas Cymru-Ariannin i gyflawni hyn?*



*Cynulleidfa Nos Wener*

**Bore Sadwrn, Mai 30 yn yr Amgueddfa Forwrol**
Syndod o'r mwyaf oedd cyrraedd yr Amgueddfa am 9.30 o'r gloch y bore a gweld anferth o giw yn disgwyl i'r drws agor. Pwy oeddynt? Pobl yrŴyl yn disgwyl am ddiwrnod bythgofiadwy. Ni fyddwn wedi colli'r diwrnod hwn am holl gyfoeth Dubai!
Llywyddwyd y bore cyntaf gan Llywydd Cymdeithas Etifeddiaeth a chawsom dri chwarter o gyflwyniad a hir gofir gan bedwar o actorion o Gwmni Ieuenctid Theatr Clwyd.



Cwmni Ieuenctid Theatr Clwyd




Y Llawlyfr ar werth



Yr holwr, Marli Pugh, Irma Roberts, Wendell Davies a'r Cadeirydd

Yn dilyn hyn cyflwynwyd Darlith yr Ŵyl gan y Gwladfawr adnabyddus Elvey Macdonald. Gwahoddwyd ef i agor y llen ar yr Arloeswyr a fentrodd dros y moroedd o Lerpwl i Ariannin. Ni chafodd neb yn unman gymaint o bobl i wrando arno yn traddodi Darlith yn Gymraeg. Byddai darlithwyr y Brifwyl yn falch o gael hanner nifer y gwrandawyr a gafodd Elvie. Gwnaeth saernio darlith gynhwysfawr a chyhoedder yn y llyfryn **Pigion Gŵyl Mimosa, Lerpwl** a fydd ar gael ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym mhebyll Cymru a'r Byd, Cymru-Ariannin.
Ar ôl y toriad cafwyd Panel Holi. Y llywydd oedd yr Arglwydd Dafydd Wigley, ffrind da i'r Wladfa ers hanner canrif.




Elvey Macdonald yn llawenhau ger y Gofeb.

Y mae ef a'i briod Elinor wedi gofalu fod y Delyn yn cael lle dyladwy yn niwylliant y Wladfa fodern. Siaradodd gydag argyhoeddiad, a gofynnwyd pump cwestiwn i'r Panel gan D.B.R. ar ei cefndir, ei Cymreictod, ei gobeithion a'i weledigaeth heddiw. Atebodd Marli Pugh, Irma Roberts a Wendell Davies bob cwestiwn er boddhad i'r gynulleidfa fawr oedd yn gorlifo. Yr oedd disgwyliadau mawr gan bawb ohonom wrth adael yr Amgueddfa. Trefnodd y Gymdeithas fwyd i'r siaradwyr yng Ngwesty'r Hilton a chawsom gwmni Dr. Huw Edwards a'i briod Vicky wrth y bwrdd, hwy wedi dod i fyny yn arbennig y bore hwnnw ar gyfer Seremoni y Dadorchuddio. Erbyn 2.30 yr oedd tyrfa dda wedi cyrraedd pencadlys Peel Holdings (y pedwerydd llawr) lle cynhelid y seremoni a'r siarad, y canu a'r cyflwyno o dan arweiniad y pencampwr, Huw Edwards.



Brian Thomas a Beryl Williams oedd yng ngofal y llenyddiaeth. Gwerthodd Beryl ei hun werth £700 o lenyddiaeth yrŴyl





Y Gofeb a'i neges

Cafodd pob un a siaradodd ar y llwyfan wahoddiad Arglwydd Faer Lerpwl i fwynhau croeso Parlwr Neuadd y Ddinas a chael te yn ei gwmni ef a'r Arglwydd Faeres. Braf oedd hynny a chyflwynodd y Gorfforaeth barsel i bob un o blant Ysgol Gymraeg yr Hendre.



Noa Pritchard o Ben-y-groes, Dyffryn Nantlle, un o'r ieuengaf yn y seremoni




Geiriad y Gofeb




Plant Ysgol Gymraeg yr Hendre â Lerpwl
(Llun: Raymond Farley)




Clwb Pensiynwyr Bodffordd, Sir Fôn. Y grŵp cyntaf i weld cofeb y Mimosa ger Doc Princes a hynny ar 9 Mehefin 2015



Dr. A. Thomas yn cyflwyno rhodd ar ran y Gymdeithas i Ian Pollitt o Peel Holdings
(Llun: Raymond Farley)

Rhifyn 16 tudalen_Tud 8 Mehefin.qxd 06/08/2015 12:21 Page 4



Elan Jones a'r gwahoddedigion




Arglwydd Dafydd Wigley



O'r chwith i'r dde: yr Arglwydd Wigley, Archdderwydd, Carwyn Jones, I. Pollitt, Llysgennhad, Arglwydd Faer a'r Faeres a D. Ben Rees





Arglwydd Faer Lerpwl



Rhan o'r dyrfa fawr

(Lluniau y dudalen yma gan Raymond Farley)

**parhad ar dudalen 15**

Rhifyn 16 tudalen_Tud 8 Mehefin.qxd 06/08/2015 12:21 Page 5

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Undeb Gorawl Cymry Lerpwl



Mae'r ddau fis diwethaf wedi bod yn rhai prysur i'r Côr. Roeddynt yn rhan o ddathliadau ymweliad y 'Tair Brenhines' sef llongau mawr Cunard QM2, QE2 a Queen Victoria. Ychydig wedyn cynhaliwyd cyngerdd yn 'Cornerstone' ar y thema 'Sbrigyn o Deim' sef cyngerdd yn canolbwyntio ar ganeuon gwerin. Dyma arbrawf oedd yn uchelgeisiol ond llwyddiannus iawn. Edrychwn ymlaen am y tymor newydd.

### Eglwys Bethania, Crosby Road, Waterloo

Bu nifer o'n haelodau yn brysur iawn gyda Gŵyl y Mimosa. Cafodd Mrs Menna Caton, Blundellsands ei holi yn Saesneg gan BBC Radio Wales ar fore Gwener, 30 Mai cyn 7 o'r gloch yn Amgueddfa Lerpwl ac yna cyn 9 o'r gloch yr un bore yn Radio Merseyside mewn rhaglen Gymraeg.

Ceir llun o Menna yn naw oed yn Llawlyfr yr Ŵyl pan drefnwyd Dathlu Canmlynedd y Wladfa yn Lerpwl yn 1965. Yr oedd hi yn un o'r ychydig oedd yno yn 1965 a 2015. Cyfrannodd John Lyons a'n Gweinidog i'r rhaglenni hyn a bu Elin Bryn Boyd yn brysur fel un o Ymddiriedolwyr Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi a drefnodd y cyfan. Teithiodd nifer ohonom i fwynhau'r Sul bendigedig yn addoli a moliannu yng nghapel hynafol y Bluecoat.




***Aled Hughes yn holi Menna***

### Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Bu dathliadau Gŵyl Mimosa yn llwyddiant enfawr a llongyfarchwn Dr. D. Ben Rees ac aelodau Pwyllgor Gwaith Etifeddiaeth am wireddu eu gweledigaeth. Roedd yn benwythnos nas anghofir gan unrhyw un oedd yn bresennol o Gymru, Lerpwl, rhannau eraill o Loegr, Iwerddon, Canada ac yn sicr o'r Wladfa. Mae'n arbennig iawn fod yr arloeswyr cynnar yn 1865 wedi cael eu cofio a'u hedmygu am eu hymdrechion drew i orchfygu anhawsterau. Maent yn esiampl i ni i gyd yn 2015.

Ar brynhawn Mawrth, Mehefin 9, cynhaliwyd Rali Genhadol ym Methel i dair Eglwys Gymraeg Y Glannau. Y siaradwraig oedd Mrs Sarah Morris, Rhiwbeina, Caerdydd. Mae Mrs Morris yn briod i'r Parchg. Meirion Morris ac mae'n gwneud llawer gyda gwaith merched trwy Gymru a chyda ieuenctid. Croesawyd y Parchg. Nan Wyn Powell-Davies i'r cyfarfod yn ogystal. Cymerwyd y rhannau dechreuol gan Mrs Nan Hughes Parry, casglwyd yr offrwm gan Mrs Elan Jones, talwyd y diolchiadau gan Miss Iris Hughes Jones a lediwyd yr emyn olaf a'r Fendith gan Mrs Beryl Williams. Roedd Mrs Morfydd Williams, Seion yn bresennol wedi dod gyda thacsi o Moreton yn dilyn ei damwain fawr, hefyd Mrs Margaret Jones, Seion, hithau wedi cael damwain yn y gorffennol agos, Roedd y ddwy hefyd yn Ysgol y Bluecoat ar Sul Gŵyl Mimosa. Derbyniwyd casgliad teilwng iawn tuag at yr Apêl. Ar ddiwedd y cyfarfod, roedd te blasus i bawb. Diolch i Mrs Beryl Williams am y trefnu.

Ar nos Lun, Mehefin 22 cafwyd cyfarfod pryd y dewisiwyd pedair emyn Saesneg o Adran Saesneg *Caneuon Ffydd* gan Dr. D. Ben Rees. Cawsant eu trafod a'u canu i gyfeiliant y piano o dan arweiniad Mrs Margaret Anwyl Williams. Mae'n dda cael cofio emynwyr mawr y Saeson yn ogystal â'r Cymry gan ein bod i gyd yn un teulu mawr yn ein haddoliad.

Ar fore Sul Mehefin 28 roeddym wedi disgwyl y Parchg. T. Leonard Williams, Pwllglas, Dyffryn Clwyd i wasanaethu. Yn anffodus iawn nid yw wedi bod yn dda ei iechyd yn ddiweddar a methodd a

Rhifyn 16 tudalen_Tud 8 Mehefin.qxd 06/08/2015 12:21 Page 6

dod. Dymunwn adferiad buan iddo. Mae'n diolch yn fawr i Dr. D. Ben Rees am gymeryd y gwasanaeth, yn enwedig gan ei fod yn gorfod trafeilio i Lanfyllin i Gapel Pen-dref at Gymanfa'r Sul yn y prynhawn ac i oedfa arall yr hwyr yng Nghapel Tabernacl. Roedd portreadau yn y Gymanfa o'r emynyddes Ann Griffith ac o Sali, gwraig Thomas Charles. Cawsom ni ym Methel bregeth gofiadwy yn y bore, sef Pregeth y Cerdded. Ar y nos Lun dilynol cynhaliwyd cyfarfod yn Y Ganolfan lle cafwyd gwerthfawrogiad o Ann Griffith ac o Sali Charles gan Dr. Rees.

Cawsom fel Eglwys newydd trist yn nyddiau olaf mis Mehefin. Clywsom am farwolaeth Mrs Gwerfyl Jones yng Nghartref Preswyl Caldy Manor, Caldy, ar Fehefin 26. Gweddw Mr. Gwilym M. Jones oedd Gwerfyl. Bu'n aelod yng Nghapel Douglas Road, Anfield Road ac yna Bethel, Heathfield Road. Bu ei chyfraniad yn fawr i fywyd Cymraeg y ddinas, yn enwedig i'r capeli. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r ddau fab, Gwyn a Hugh sydd wedi bod yn hynod iawn o ofalus ohoni. Nid yw'r angladd wedi ei drefnu'r derfynnol hyd yma.

Cofiwn am y cleifion gartref ac mewn Cartref Preswyl. Dymunwn haf bendithiol i holl ddarllenwyr *Yr Angor.*

***Haelioni Anhygoel***

## APÊL GWYL MIMOSA LERPWL 2015

Nid yw'r Apêl wedi cau fel y gwelir yn y golofn hon a llawenhawn fod Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi yn derbyn cymaint o gymhorth eleni.

**YR WYTHFED RESTR (i 1/7/2015)**

1. Eryl Edwards, Llanuwchllyn....... £10
2. Hugh a Joyce Roberts, Bromborough ............................£25
3. Wayne Jones, Oriel Mimosa, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin .........£100
4. Margaret Jones, Wallasey, (ail gyfraniad) ..............................£25
5. Elfyn Thomas (Cwmni Teithiau), Môn ...........................................£300

**Cyfanswm (1/7/2015)..... £460**

Mynegir ein diolch diffuant


***D. Ben Rees (Cadeirydd),***
***Rachel Gooding (Trysorydd),***
***Arthur Thomas (Ysgrifennydd)***

# *Anrhegu Dylan Jones yn Lerpwl*

Fe ddaeth rhaglen Dylan Jones BBC Radio Cymru i Radio Merseyside yn Lerpwl ar ddechrau Gŵyl y Mimosa. Rhoddwyd anrheg iddo o waith unigryw Cirin Roberts, un o Gymry Lerpwl (www.c17design.co.uk) . Hanner can mlynedd yn ôl enillodd tîm pêl droed Lerpwl Gwpan pêl droed Lloegr gan guro Leeds United 2-1, tîm y mae Dylan yn ei gefnogi, ond er hynny 'roedd yn hynod o ddiolchgar i dderbyn y 'momento' yma. Diolch i Dylan, Aled Huws a thîm y rhaglen am eu gwaith ac i Cirin am nodi'r diwrnod arbennig yma mewn ffordd fythgofiadwy.



***Cirin Roberts***




***Anrheg i Dylan Jones BBC o waith Cirin Roberts***




***Cymry Lerpwl yn disgwyl eu tro i gael cyfrannu i raglen Dylan***



***Dau o gyn heddgeidwaid Lerpwl yn awyddus i fynegi barn i'r BBC***

# Adroddiad Encil Nercwys 23 Mehefin 2015

Diwrnod braf o haul yn Nercwys a ninnau - aelodau Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain - wedi teithio o bell ac o agos am ddiwrnod o Encil ac ymgynnull mewn llawenydd. Ni chawsom ein siomi. Roedd y croeso yn y capel bach a'r ysgoldy hardd yn hynod o gynnes a'r gymdeithas yn un hyfryd gydol y dydd. Mae'r haul yn trawsnewid pob peth yn union fel y goleuni mewnol a drawsnewidiodd Iesu Grist yn y Gweddnewidiad (Luc 9:28-36). Dyma beth a glywsom yn y defosiwn gyda'r cyfarwyddyd i wrando'n astud ar ein Harglwydd. Dilynwyd hyn gan astudiaeth feiblaidd wych gan y Parch Ddr Elfed ap Nefydd Roberts yn ein hatgoffa o sylfeini ein ffydd: cred, gweddi a gwaith, gydag Iesu Grist yn ganolbwynt. Roedd geiriau Paul yn ei lythyrau at y Corinthiaid (2 Cor 5: 14-21) a'r Galatiaid (Galatiaid 2:20-21) yn



*Yn y fynwent yn Nercwys o flaen bedd rhieni John Davies*

crynhoi'r neges ac yn annog y bobl a ninnau, yn y ffydd Gristnogol ac i rannu'r newyddion da yn ystod ein bywyd.

Roedd y capel wedi darparu cinio ardderchog a phawb yn fodlon i gyfrannu at y costau ac at gasgliad arbennig ar gyfer anghenion y bobl yn Nepal. Yn y prynhawn, daeth y Parch Eirlys Gruffydd â'i hanerchiad difyr a llawn hiwmor am y Parch John Dafis Nercwys. Bu John Dafis yn byw ac yn gweithio yn ddiwyd yn yr ardal yn y 19eg ganrif. Yntau yn cefnogi sefydlu'r Achos yn 1828 ac yn cyfrannu yn hael at y gwaith. Roedd yn mynd o gwmpas Cymru Gyfan i bregethu'r Efengyl a bedyddio plant. Aeth i Dde Cymru, i Lerpwl a Manceinion gan ddefnyddio'r trên neu ar gefn ceffyl. Roedd llawer o hanesion digrif am y dyn oedd yn hoff iawn o bethau melys ac o anifeiliaid ond oedd hefyd yn bregethwr poblogaidd ac effeithiol oedd wedi ysgrifennu llyfr ar y Diarhebion. Roedd yn ddyn hoffus iawn, o'r hyn a glywsom.

Aethom wedyn i fynwent Eglwys y Plwyf i weld ei fedd a bedd ei rieni a theimlo'r awyrgylch arbennig tu mewn i'r eglwys hynafol a fu'n sefyll yno ers y 15fed ganrif. Daeth organydd yr Eglwys i chwarae rhai o emynau Cymru i'n swyno a'n hysbrydoli. Pwysau hanes oedd yn yr adeilad a gweddïau'r bobl i lawr y canrifoedd yn ein hamgylchynu am orig fach. Ar ddiwedd y dydd roedd yn amser inni gyd gynnull yn y capel unwaith eto o gwmpas y Bwrdd a rhannu'r Cymun gyda'r Parch Huw Powell Davies yn arwain a'r testun sydd i'w weld uwch y pulpud yn destun i'w bregeth, sef: 'Sêl dy dŷ di a'm hysodd i' (Salm 69:9 a Ioan 2:17 geiriau Iesu). Anogaeth i ddal ar ein sêl oedd cnewyllyn y bregeth a'r dydd cyfan, a hynny trwy ein cariad at Iesu Grist. Diolch am ddiwrnod mor arbennig a boed i'r neges fod yn ysbrydoliaeth i bawb.

***Eleri Edwards***



*Parch Huw Powell-Davies yn darllen y teyrnged i John Davies ar ei gofadail*



COFADAIL
Y Parch John Davies,
Nerquis
Gweinidog ffyddlawn gyda y
Methodistiaid Calfinaidd.
Bu yn pregethu yn gymeradwy
am 57 o flynyddau.
Yr oedd efe yn ddoeth mewn
cynghor, yn gadarn yn yr
ysgrythyrau,
yn ddiargyhoedd ei fuchedd,
ac yn fab tangnefedd,
wedi ei addurno ac ysbryd
addfwyn a llonydd.

Hunodd yn yr Arglwydd mewn
llawn hyder ffydd
yn ôl yr efengyl a bregethodd
Mawrth 5ed 1879.
"Y mae efe yn llefaru eto"

# CORNEL Y TRYSORYDD

## Awst/Medi 2015

| | |
|---|---|
| Mrs Glenys Jones, Prenton (er cof am Bob) | £30.00 |
| Mr a Mrs Dewi Evans, Y Bala | £10.00 |
| Mrs Doris Thomas, Llangefni | £20.00 |
| Mrs Menna Edwards, Waterloo | £5.00 |
| Miss Marian Davies, Bae Colwyn | £15.00 |
| Mr a Mrs Ralph Jones, Bethesda | £20.00 |
| Mr a Mrs Euryn Roberts, Abergele | £30.00 |
| Miss Ann Roberts, Childwall | £26.00 |
| Dr Rhys Davies, Efailnewydd | £11.00 |
| Mrs Sian Barker, Allerton | £11.00 |
| Mr Goronwy Owen, Allerton | £100.00 |
| Parch John Morris, Llanddanielfab, Môn | £25.00 |
| Mrs Elizabeth Winifred Morris, Llanddanielfab a Lerpwl gynt | £25.00 |
| Mr Rhys Morris, Llanddanielfab, Môn | £25.00 |
| Mr Llŷr Morris, Llanddanielfab, Môn | £25.00 |
| Mr William McAvoy, Mossley Hill | £20.00 |
| Yr Athro Huw Rees, Boncath | £25.00 |
| Mr Keneth Williams, Woolton | £50.00 |
| Mr a Mrs John Lyons, Knowsley | £40.00 |
| Mrs Gwenfyl Bain, Allerton | £20.00 |
| Mrs Nerys Jones, Grassendale | £20.00 |
| Mrs Undeg Cole, Abertawe | £11.00 |
| Mrs Mary Evans, Caernarfon | £11.00 |
| YrAthro David Price Evans, Woolton | £20.00 |
| Mr a Mrs Alun Vaughan Jones, Childwall | £20.00 |
| Rhodd Capel Seion, Penbedw | £50.00 |
| Y Parch Tom a Catherine Wright, Wrexham | £20.00 |
| Mrs Enfys Hughes, Brynteg | £11.00 |
| **Cyfanswm** | **£696.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

Rhifyn 16 tudalen_Tud 8 Mehefin.qxd 06/08/2015 12:21 Page 8

Myfyrdod

# Y PALMWYDDEN

gan Elwyn Parry

Fe welais mewn cylchgrawn fod Christiansberg Castle yn Accra, Ghana wedi cael ei hadnewyddu ac yn cael ei hadnewyddu yn amgueddfa ac fe ddaeth hyn ag atgof yn ôl i mi. Roeddwn yno pan yn nyddiau'r Fyddin ac un o'm gorchwylion oedd gyda mintai o filwyr amddiffynnol Llywodraethwr pan oedd y terfysg yno. Doedd o ddim yn gastell fel y cyfryw ond fwy o amddiffynfa (fort) lan môr. Un peth amlwg oedd prydferthwch y gerddi trofannol gyda'r palmwydden urddasol.

Y prif arddwr oedd hen soldiwr ac fe wnes ffrindiau ag ef yn syth. Roedd yn blentyn amddifad ac wedi cael ei ddwyn i fyny gan genhadwr a'i wraig yn Kumasi, sef tref ryw 150 milltir o Accra ac yn Fethodus rhonc!! Ar ôl gorffen gyda'r fyddin fe gafodd y swydd o brif arddwr. Ei brif hyfrydwch oedd y "towering beauties" y balmwydden. Cefais wybod eu bod yn wahanol iawn i goed eraill yn y ffordd mae'r coed yn cael eu maeth a bwyd. Wrth gwrs, mae pob dim yn dod o'r ddaear trwy y gwreiddiau sy'n cael eu lleithder ac mae hyn yn mynd i fyny'r canghennau RHWNG y rhysgl a'r goeden. Nid felly y palmwydden ac roedd hyn yn sioc i mi mae'n rhaid cyfaddef. Mae'r maeth a'r bwyd trwy CANOL y palmwydden neu fel dywed yr arddwr y "galon". Dydy bywyd y palmwydden yn agos i'r gwyneb fel y coed eraill ac ni all unrhyw anaf arwynebol effeithio dim ar y palmwydden a'r unig ffordd i'w lladd ydy torri hi i lawr yn gyfangwbl.

Byddaf wastad yn meddwl fod yna "rhagluniaeth ddistaw" o gwmpas ac yn wir fe gefais bregeth "ar lan y môr?'. Dywedodd y garddwr ei fod yn cael bywyd fel y Palmwydden sef trwy'r galon a chred mewn cyfiawnder. Iddo fe doedd dim tu allan yn y byd cyfan yn medru effeithio arno fe oherwydd ei fod yn cael ei gynhaliaeth a'i gryfder trwy'r galon.

Yn ogystal meddai wrthyf mae'r palmwydden yn fythol wyrdd. Mae bywyd yn llifo tu mewn o hyd. Mae'r Cristion byth yn newid ond yr un yn dyst o ras Duw bob dydd o'i oes oherwydd bod ei Grewr yr UN, Ddoe, Heddiw ac yn Dragywydd.

Oes yna un peth eto? Oes ac yn dra phwysig. Does dim modd impio y balmwydden neu wnaiff farw. Dyna nodwedd y Cristion ynte? Ni all unrhyw ddyn wasanaethu dau Arglwydd. Dim ond UN ARGLWYDD SYDD.

Dyna hanes Uwch-Rhingyll George Calfin Nkrumasi pan adewais o. Doedd ei iechyd ddim yn dda ac am yr ysbyty roedd yn mynd. Roedd yna ddau ysbyty yn Accra, un gan y Llywodraeth a'r llall gan y Genhadaeth Dramor. Fel y dywedodd "I'r genhadaeth af mae'r moddion yr un fath ond y dwylo'n wahanol"

Calon onest, Calon lân.

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2015. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

• **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

i) **Rhifyn Hydref 2015 –** erbyn bore Mawrth, 1 Medi – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk

ii) **Rhifyn Tachwedd 2015** – erbyn bore Iau, 1 Hydref 2015 – y lluniau, adroddiadau etc.

iii) **Rhifyn Rhagfyr 2015 / Ionawr 2016 –** erbyn bore Sadwrn, 31 Hydref 2015 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn erbyn 2 Tachwedd 2015.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

AR WERTH YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MALDWYN YM MEIFOD

Llyfryn

**Pigion yr Ŵyl**

**a gynhaliwyd yn Lerpwl (29 Mai i 31 Mai 2015) Cofio y Mimosa a'i Phobl a Dathlu 150 mlynedd y Wladfa**

Darlith, hanes a lluniau godidog




Pris £5.00
(trwy'r post £6 oddi wrth y Golygydd, Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl/Liverpool L18 6HW

# CARREG GOFFA

Ar y Sul olaf ym Mehefin, mewn seremoni syml wedi'r oedfa yng nghapel Wycliffe (U.R.C.) yn Bewsey Street, Warrington, fe ddadorchuddiwyd cofeb hardd sy'n datgan diolch y Methodistiaid Gymraeg am y croeso a gawsant i ddefnyddio yr adeilad ar gyfer eu gwasanaethau. O'r dechrau yn 1884, hyd nes agor y capel Cymraeg yn Crosfield Street yn 1894, bu'r Cymry yn cynnal eu gwasanaethau yn yr eglwys hon. Can mlynedd yn ddiweddarach, wedi cau y capel yn Crosfield Street, yn ôl y daethant i Bewsey Street, lle cawsant groeso fel o'r blaen. Yn awr mae'r Achos yn Warrington wedi dod i ben a'r eglwys wedi uno â Noddfa Oaker Avenue.

Gyda chynrychiolaeth o aelodau Altrincham a Noddfa yn bresennol, cawsom oedfa gofiadwy o dan ofal y Parch Bill Burgess, gweinidog eglwys Wycliffe, a'r Barch Eleri Edwards. Eleri draddododd y bregeth a hi hefyd a weinyddodd wrth fwrdd y Cymun. Er mai yn Saesneg oedd y gwasanaeth, fe ganwyd y rhan fwyaf o'r emynau ar donau Cymraeg.




***Y neges - ar lechan Gymreig. Byddai'r gwasanaethau yn Warrington yn terfynu bob amser gyda'r gynulleidfa yn canu "dan dy fendith wrth ymadael"***

Wedi'r oedfa, fe gawsom gyfle i gymdeithasu yn yr ystafell gefn lle'r oedd gwledd wedi ei pharatoi ar ein cyfer. Cyn bwyta, fe ddadorchuddiwyd y gofeb gan Mrs Brenda Pritchard, gyda geiriau o ddiolchgarwch ar ran y Cymry yn Warrington ar hyd y blynyddoedd am y croeso a gawsant oddiwrth y gweinidog ac aelodau eglwys Wycliffe, a'r awyrgylch gynnes a fu rhyngthynt.

Ar ôl bwyta, ac ar gais un o'r cyfeillion Saesneg, daeth y Cymry at eu gilydd o dan arweiniad Mr Trefor Davies i ganu dwy bennill o emyn Ann Griffiths 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' ar y dôn *Cwm Rhondda*. Diweddglo ardderchog i gyfarfod arbennig.



***Parch Bill Burgess (Gweinidog eglwys Wycliffe) yn ymateb i Brenda ac Emyr Pritchard, aelodau olaf yr eglwys yn Warrington.***

# RALI GENHADOL Y CHWIORYDD DOSBARTH LERPWL

Ar brynhawn Mawrth, Mehefin 9fed cynhaliwyd Rali Genhadol y chwiorydd Dosbarth Lerpwl o Henaduriaeth Gogledd Ddwyrain yng Nghapel Bethel, Lerpwl.

Yr oedd y gwasanaeth dechreuol yng ngofal Mrs Nan Hughes Parry a llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Ddr Athro D Ben Rees yn absenoldeb anorfod Miss Mair Powell, (West Derby) oherwydd gwaeledd. Daeth Mrs. Sarah Morris, Rhiwbina sef Ysgrifennydd Adran y Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru atom i'n hannerch. Daeth y Parch. Nan Wyn Powell Davies gyda hi, swyddog Adran Bywyd a Thystiolaeth i'n plith.




***Sarah Morris, Rhiwbina yn annerch***

Siaradodd Mrs. Morris am 'Apêl y Llywydd' i godi arian i Ysbyty Shillong. Y flwyddyn ddiwethaf bu i'r Parch. Trefor Lewis a'i wraig ymweld â Shillong. Wedi dod yn ôl yr oedd yn frwdfrydig i godi arian i'r ysbyty yno sef Ysbyty Hugh Gordon Roberts, yr ysbyty ble y bu Dr. R Arthur Hughes a Mrs. Nancy Hughes yn gweithio am flynyddoedd. Fe agorwyd yr ysbyty yn 1922 ac erbyn hyn mae'r ysbyty yn rhy fychan a'r offer yn hen. Dangosodd ffilm inni sydd yn dangos y cynlluniau uchelgeisiol am yr ysbyty newydd. Mae'r apêl yn mynd ymlaen hyd 2022 sef canmlwyddiant yr ysbyty yng Ngogledd Ddwyrain India. Mae angen codi £2.4m! Fe wnaed casgliad sylweddol yn y cyfarfod ond bydd angen mwy o weithgareddau i godi arian yn y dyfodol. Darparwyd tê wedi'r rali yn y Ganolfan lle y cawsom gyfle i gymdeithasu.

# GWEDDI ELI

*(addasiad o gerdd enwog Dylan Thomas*

Bob bore gyda wawr y dydd
O Dduw, fy ngweddi i ti sydd
I daenu'th aden dyner drosom,
A lleddfu'r loes sy'n pwyso arnom.

Ac na, wedi oriau'r hwyr
I gadw amser nos, yn llwyr
I'n derbyn ninnau, bob yn awr
O fewn dy law hyd doriad gwawr.

'Rym oll yn gadarn yn ein ffydd
Mai ti sy'n trefnu'r nos a dydd
Drwy'r caddug du, dy olau ddaw
Mae'r daith yn ddiogel yn dy law.

*Ken Williams*
*Gateacre*

*Darn o Hunangofiant*
*Brian Thomas*



# DYDDIAU DYSGU YN QUEENSLAND STREET, SPECIAL SCHOOL FOR BOYS, LERPWL

## Prifathro: Mr W. Arrowsmith - Roberts, Y.H.

### Pennod 3

Mae'r adeilad a'r ysgol hon yn Wavertree wedi diflannu i ebargofiant ers blynyddoedd bellach, ac adeiladwyd tai newydd i deuluoedd ar y safle. Ysgol ydoedd debyg iawn i Ysgol Brookside y bum yn sôn amdani yn yr ail bennod o'r hunangofiant. Cynigia'r ysgol addysg i blant ac IQ ganddynt o 70 i 100 gan obeithio helpu y mwyafrif ohonynt i addasu i ofynion Ysgol gyffredin yr Awdurdod Addysg.

Ond 'roedd y plant hyn yn anoddach i'w trin a'u dysgu, na'r rhai o ysgol Brookside. 'Roedd plant Queensland yn fwy gwyllt ac yn anoddach i'w disgyblu. Plant oeddent o gefndiroedd gwahanol, a llawer ohonynt o gartrefi ar chwal. Fy ngwaith i eto oedd cymeryd dosbarth o blant a fuasai yn gywirach wedi cael eu cadw mewn ysgol Eilradd gyffredin o'r cychwyn. Rhai ohonynt a dim syniad o werth addysg, ac yn meindio dim lle'r oeddynt, canys 'doedd ganddynt ddim eisiau bod mewn unrhyw ysgo1. Y gwaith efo hwy oedd eu hysgogi i dderbyn bod angen addysg arnynt o gwbl. Ceid eraill oedd wedi methu a datblygu yn yr amser oedd ar gael iddynt pan oeddent yn yr ysgolion Cynradd. Amser bellach wedi dal i fyny a hwynt. Ac mae hyn yn dal i ddigwydd heddiw. Plant sydd yn disgyn ar ôl y canran ac yn cael eu gadael ar ôl. Fy ngwaith oedd cael gymaint a fedrwn ohonynt i groesi'r bont a thramwyo'n ôl i'w hysgol lleol. Perswadio'r meddyg ysgol oedd y dasg i dderbyn fod eu gallu yn ddigon uchel i ddychwelyd i'w cynefin cywir. Meddyg, cofiwch oedd ganddo'r hawl i'w gosod yn y glorian heb ddim cymhwysterau addysgol. 'Roedd gennym un mantais oedd yn werth y byd yn yr ysgol hon. 'Roedd yna gysylltiad cryf rhwng Arolygwr Addysg Gorfforol yr Awdurdod, gŵr o'r enw John Ramsden. Bu rhai o'r hogiau mwyaf addawol ymuno â sefydliad Duc Caeredin. Fe'm swynwyd gan yr achos a bu i'r hogiau hefyd gael eu swyno. 'Roeddynt wrth eu bodda efo'r gweithgareddau gwahanol ac yn cael eu cysylltu efo gwaith yr ysgol. 'Roedd y Sefydliad yn anelu at ddatblygu gallu y plant i gyrraedd Safon Aur mewn gwahanol fudiadau datblygol, addysgol, chwaraeon, a chysylltiadau cymunedol yn arbennig. Y nod oedd i ehangu a datblygu cymeriadau bobl ifanc. Drwy gysylltu y gweithgareddau, mynd i ganwio, mynd i ddringo mynydd a mynd i dreulio penwythnosau yn y wlad, a chysylltu hyn a gwaith yn yr ysgol, byddai'r hogiau yn gallu newid eu hymroddiad tuag at ddysgu. Wrth gwrs, 'doedd ein plant ni ddim ond yn gallu cyrraedd Safon Efydd. Bu'r mudiad yn yr ysgol yn llwyddiannus iawn, a bu i amryw o'r hogiau lwyddo i fynd yn ôl i'w hysgolion cywir. Buom hefyd yn lwcus iawn yn cael cynorthwy un o'r J.L.O's. Plismyn oedd y J.L.O.'s oedd yn cael gweithio'n llawn amser efo ieuenctid, a oedd yn debyg o droi i drwbl heb gymorth i'w cadw yr ochr iawn i'r gadwyn. 'Roedd Doug McKay yn ŵr hynod ac 'roedd gennym edmygedd mawr ohono. Byddai ar gael i'n cefnogi unrhyw bryd, a threuliau oriau o'i amser ei hun i ddod gyda ni, lle bynnag yr awn. Wrth gwrs nid yw'r gwasanaeth hyn ar gael yn awr, mae'n bellach yn rhy ddrud. Byddem yn dysgu i'r plant ddarllen mapiau a defnyddio compass), ac yn mynd i gampio dros penwythnosau. Trecio ar fynyddoedd Cymru, a'u dysgu i nofio, a mynd a hwy i ganwyo ar afonydd fy ngwlad. 'Rwy'n cofio unwaith mynd a hwy i fyny'r Wyddfa, i fyny'r 'Pyg Track'. Ychydig cyn cyrraedd y copa, clywed rhywun yn gweiddi, a sylwi'n sydyn fod un o hogiau a oedd yn dod i lawr wedi baglu ac yn codymu amdanom. Yn dra lwcus iddo ef bu i un o'n hogiau ni allu cael gafael ar ei goes, a dal ei afael, a'i stopio rhag cwympo ymhellach. 'Rwyf wedi darllen lawer gwaith er hynny faint o bobl sydd yn syrthio i'w tynged wrth ddod i lawr y mynyddoedd. Bachgen o ysgol Ellemere Port oedd, hwythau yn cym'ryd rhan yn y *Duke of Edinburgh Award* fel ninnau. 'Roedd yn rhaid wedyn cael y tîm achub i'w gludo oddiar y mynydd i Ysbyty fawr Bangor. Cafodd yr ysgol lythyr cymeradwy gan bennaeth Ysgol Ellesmere Port yn diolch i'r bachgen am achub bywyd yr hogyn. Cafodd ei enwebu gan yr Awdurdod am ychwaneg o gydnabyddiaeth, ond ni chlywsom ddim byd yn ychwanegol wedyn. Carfan fechan o'r bechgyn oedd yn gallu cyrraedd hyd yn oed Safon Efydd, ond 'roeddynt i gyd yn elwa yn fawr o'r ymroddiad hwn.

Un diwmod cafodd un o hogiau'r ysgol ei ddanfon i ysgol Gyfun Paddington, ysgol agos atom o ran lleoliad, a'r neges i drosglwyddo llythyr i Ddirprwy yr Ysgol. Wedi cyrraedd yno gofynnodd am gyfarwyddyd i'w gyfeirio i'r ystafell gywir. Yn y diwedd rhywsut ymunodd a rhai oedd yn disgwyl i fynd i mewn i'r ystafell, a choeliwch neu beidio 'roedd wedi ymuno a chriw oedd yn cael y gansan. A chyn iddo egluro beth oedd ei neges, do fe gafodd y gansan ar ei ben ôl. Daeth yn ôl i'r ysgo1 gyda llythyr yn ymddiheuro am yr anffawd. !

Cofiaf hefd yn dda, un flwyddyn 'roedd yr ysgol wedi dod i'r brig yn eu dosbarth am safio arian yng nghyngrair 'National Savings', a'rArglwydd Faer a'i Faeres wedi dod i'r ysgol i drosglwyddo cwpan arian am yr orchest. Ar ôl gwasanaeth cyflwyno aeth yr osgordd ar gerdded o gwmpas yr ysgol. Wrth fynd i lawr staer grisiau yng nghefn yr ysgol yn arwain i'r iard, petrusodd y Faeres a gofyn i un o'r bechgyn oedd yn sefyll o tani yn yr iard, "And what do you think of this fine School, young man ?" ...... "I xxxxx hate it," meddai'r bachgen heb flewyn ar ei dafod.!

Dro arall aethom a chriw o'r ysgol i Sŵ Caer am y diwrnod.Y rhain oedd yr rhai gorau oedd gennym. Doeddem ni ddim yn mynd a phawb. Dyna oedd y 'creme de la creme'. Ar ôl mynd gyda'n gilydd am beth amser, dyma'r Dirprwy yn rhoi caniatâd i rai ohonynt gael pen rhyddid am awr, gyda gorchymyn iddynt fyhafio eu hunain, ac i ffwrdd a hwy. Yn ôl i'r adwy ymhen awr i fynd yn ôl i'r ysgol, a chael ar ddallt fod dau ohonynt wedi cael eu herlid o'r Sŵ am reidio y Pygmy Hippopotamus! "Why on earth did you think you could ride a Hippo", meddwn i. "Because he bet me that I couldn't", oedd yr ateb.

Wedi treulio tair blynedd yn 'Queenie' rhois fy enw i fewn gais am swydd uwch a mwy o gyfrifoldeb ganddi a hefyd mwy o gyflog, a chefais hi yn *New Heys Reception Centre,* drws nesaf i Ysgol Gyfun New Heys yn Springwood. Heddiw fe adeiladir tai newydd moethus ar werth am £400,000 ar y safle. Caf adrodd profiadau *New Heys Centre* y tro nesaf ar ôl i chwi fwynhau Eisteddfod Meifod. *(i'w barhau)*

Rhifyn 16 tudalen_Tud 8 Mehefin.qxd 06/08/2015 12:21 Page 11

# Cymraeg mewn diwrnod!
# Welsh in a day!

Cwrs undydd Cymraeg i ddechreuwyr (oedolion)/ rhai sydd eisiau ymarfer.
*One day Welsh language course for adult beginners/those that would like a refresher.*

**Dydd Sadwrn 24ain o Hydref, 2015 - 10yb-4yh yn y Ganolfan Gymraeg (Welsh Centre), Auckland Road, Lerpwl 18 yn ymyl Eglwys Bresbyteraidd Bethel, Heathfield Road**

***Saturday 24th October, 10am – 4pm at The Welsh Centre, Auckland Road, Liverpool L18 near Bethel Presbyterian Church, Heathfield Road***

gydag Ann Wyn Barker, un o diwtoriaid Cymraeg Canolfan Cymry Llundain, *yn enedigol o Lerpwl.*
*with Ann Wyn Barker, one of the Welsh language tutors at the London Welsh Centre, born in Liverpool.*

Darperir te, coffi a bisgedi ond bydd angen i chi ddod a cinio gyda chi.
*Tea, coffee and biscuits provided but you will need to bring a packed lunch.*

**Cost: £20.00**

I gofrestru eich diddordeb ebostiwch benatgarthdrive@talktalk.net erbyn 31/08/2015
To register your interest email benatgarthdrive@talktalk.net by 31/08/2015

***Noder:*** bydd y cwrs undydd hwn ond yn cael ei redeg ar y dyddiad hwn os bydd digon o ddiddordeb.
***Please note:*** this day course will only run if there is enough interest.

**Cyfarfod Cenedlaethol**
**Cymdeithas Dydd yr Arglwydd**
**Cyflwyniad Cwmni Penllyn**
**'Sali' gan Buddug Medi**
**Cynhyrchydd: Mair Penri.**
**Mehefin 28ain 2015 yng**
**Nghapel y Tabernacl Llanfyllin**

*Gweled gwaith Buddug Medi, a rhannu*
*arweiniad Mair Penri;*
*ei sail oedd bywyd Sali*
*â naws yr hanes i ni.*

*O lunio'r holl gyflwyniad, - yn eglur*
*bu cur a bu cariad;*
*ar y lôn i ffeiriau'r wlad,*
*byd cul a bywyd calad.*

*Byd y Gair oedd byd y gŵr*
*byd pregeth a phregethwr,*
*byd cennad a chenhadwr,*
*dysgu a gwas'naethu'r Gŵr.*

*'Beibl i bawb o bobl y byd'*
*a'u hanfon i'r cyfanfyd.*

*Cymerau*

***Robin Hughes, Llanfyllin***



# Diolch Didwyll am Benwythnos Gŵyl y Mimosa - Detholiad

**Cyfarchion o Fachynlleth gwlyb oer.**

Y dywediad sydd yn dod i ni ein dau ydi yr un saesneg - - “the sun shines on the righteous”. Diolch i chi am benwythnos fendigedig, lansiad arbennig i’r dathliad. Mary a finna wedi mwynhau y penwythnos ac wedi dysgu llawer hefyd. Fe roedd yn fraint cael bod yn y gwasanaeth fore Sul, y gwir ydi fod popeth wedi bod yn wych, diolch i chi a’r criw a fu yn gweithio i wneud yr achlysur yn un mor fendigedig.

**Cofion a phob dymuniad da, John a Mary. (Price) Undeb Cymru a’r Byd**

---

**Annwyl Dr Rees,**

Dim ond gair bach i’ch llongyfarch yn fawr iawn ar benwythnos rhagorol yn dathlu Gŵyl Mimosa. Daeth criw bach o Glwb Cymraeg Preston i ymuno â'r seremoni dadorchuddio ar brynhawn dydd Sadwrn. Roedd yr achlysur yn hynod o ddiddorol a difyr, roedd y trefniadau a'r cyfraniadau o'r siaradwyr gwadd, y bobl ifanc a'r plant yn ardderchog. Gwnaeth argraff ddofn ar bob un ohonom.

Diolch o galon am y cyfle i fod yn rhan o'ch gweithgareddau ac i wrando arnoch chi eich hunan am amser byr. Bendigedig!

Yn gywir,

**Anne Spooner**
**Cadeirydd Clwb Cymraeg Preston**

---

**Annwyl Athro D. Ben Rees, Lerpwl,**

Wel, dyma ni wedi cyrraedd adre a chael amser i gael ein gwynt atom ac ysgrifennu gair atoch i ddiolch i chi am y trefniadau wnaethoch chi a’r pwyllgor ar ein cyfer yn Lerpwl adeg Gŵyl Mimosa ddiwedd Mai. Cawsom amser wrth ein boddau a phrofiadau bythgofiadwy bydd y plant yn eu trysori ac yn eu gwerthfawrogi am weddill eu bywydau, dwi'n siwr.

Roedd y croeso a estynwyd i ni gennych chi a’ch cyfeillion yn dwymgalon a’r cyfle a roddoch chi i ni gymryd rhan yn eich dathliadau yn y seremoni dadorchuddio yn werthfawr tu hwnt. Gobeithio na wnaethon ni eich gadael i lawr. Roedd yn hyfryd bod yn bresennol i weld Elan, sy’n gymaint o gyfaill i’n hysgol, yn dadorchuddio’r gofeb a honno’n gofeb mor urddasol. Diolch o galon i chi.

Gobeithio gallwch estyn ein gwerthfawrogiad a’n diolch hefyd i’r cwmni fu’n trefnu’r digwyddiad hefyd – cafodd pawb roddion i’w trysori ganddynt ac roeddem ni wedi addo ysgrifennu i ddiolch ond dwi wedi colli cyfeiriad e-bost Liz.

Cofion cynnes, gan obeithio cawn gwrdd eto cyn hir,

**Catrin Morris**
**Ar ran cymuned**
**Ysgol yr Hendre, Trelew, Patagonia**

---

**Annwyl Olygydd,**

Fe hoffwn ddiolch yn fawr i’r Parchedig Ddr. D. Ben Rees a holl drefnwyr Gŵyl Mimosa am benwythnos i’w chofio. Mynychodd fy ngwraig a minna’r holl gyfarfodydd amrywiol a mwynhau pob eiliad.


Yn ychwanegol fe ddarganfyddais ddau gysylltiad teuluol newydd. Wrth gael gair gyda eich cyfranwr diddorol, Brian Thomas, dywedodd ein bod yn hannu o’r un llinell o Benmachno. Yn y seremonïau gwelais berthynas arall o deulu Penmachno, Dwynwen Mather. Roedd newydd ymweld â Phatagonia a dywedodd fod aelod o’m teulu yno yn Lerpwl. Yn anffodus ni welais Dwynwen wedyn i gael cyarfod fy mherthynas yn ystod yr ŵyl ac er mawr siom bu rhaid imi ddod adra i Gaernarfon heb gyfarfod fy mherthynas newydd.

Ond, ymhen tridiau ffoniodd Dwynwen tua 9.30 pm i ddweud fod Norma a Donald Thomas yn aros yng Nghaernarfon y noson hono. Galwais yn gwesty ond roeddent allan. Crwydrais o gwmpas ond ddim yn eu gweld. Ond dipyn wedi deg yr hwyr cyrhaeddodd Dwynwen yr un pryd â bws yn llawn o ymwelwyr o Batagonia, a cefais fy nghyflwyno i’m perthynas newydd.

Yna aethom am baned a sgwrs oedd braidd yn anodd gan mai Sbaeneg oedd unig iaith Norma, a Donald heb fod yn rhugl iawn yn Saesneg. Er hynny cawson noson ddifyr dros ben. Roedd Donald yn ddisgynydd i un o deithwyr y Mimosa, a Norma yn ddisgynydd i frawd hen, hen, hen daid i mi o Benmachno, ac yn bedwerydd cyfneither i fy mam.

Diolch o galon am drefnu’r ŵyl fu’n achlysur mor bleserus ac hefyd yn gyfrwng cyfarfod â pherthynas newydd o’r Wladfa.

**Yn gywir,**
**Hywel Roberts**
**Caernarfon, LL55 1HB**




**Dosbarth Lerpwl o Eglwys Bresbyteraidd Cymru**

## OEDFAON UNDEBOL AWST 2015

**Sul Awst 2, 2015**
am 10.30 Yr Athro Dr. D. Ben Rees ym Methel, Heathfield Road ac yna yn Seion, Laird Street, Penbedw am 2.30. Gweinyddir y sacrament o Swper yr Arglwydd ym Methel.

**Sul, Awst 9**
ym Methel, Lerpwl am 10.30 a Seion, Penbedw am 2.30.
Y Parchg. Ifor ap Gwilym, Abergele.

**Sul, Awst 16**
ym Methania, Crosby Road South, Waterloo, Lerpwl am 11.15 o’r gloch y Parchg. D. Glanville Rees, Southport yn arwain ac am 2.30 yn Seion y Parch. Robert Parry, Wrecsam, a bydd yn gweinyddu’r Cymun.

**Sul, Awst 23**
ym Methel, Heathfield Road am 10.30 ac yn Seion, Penbedw am 2.30
y Parchedig J. Gwyndaf Richards, Llwydiarth, Maldwyn.

**Sul, Awst 30**
ym Methel, Heathfield Road, Lerpwl am 1.30 ac yn Seion, Laird Street, Penbedw am 2.30, Mr. R. Anthony Platt, Sudbury, Suffolk, blaenor yn Henaduriaeth Llundain.

*Croeso cynnes i’r oedfaon hyn ym Methel, Heathfiueld Road; Bethania (Bore Sul, 16) a Seion, Laird Street, Penbedw am 2.30 bob pnawn Sul*

# Cymdeithas Cymry Lerpwl – Rhaglen yr Haf

Ar brynhawn Iau Mehefin 11eg cawsom dê prynhawn yng ngardd ‘Maeshir’ wedi ei drefnu gan Roderick, Norma a Devida. Roedd yn brynhawn arbennig o braf a chynnes a daeth dros 24 ohonom i’r tê. Roedd digon o ddanteithion i’w fwyta a’i yfed a digon o amser i sgwrsio. Prynhawn pleserus dros ben a diolch am y paratoi.




*Arddangosfa Byd Mary Jones*



*Eglwys hardd yr Anglicaniaid yn y Bala*

Ar ddydd Mercher Mehefin 24ain aethom am drip i’r Bala a Llanycil. Bu 23 ohonom ar y daith a gadawsom Lerpwl am 9 o’r gloch y bore. Wedi cyrraedd y Bala cawsom baned a theisen yng Ngwesty y Llew Gwyn ac wedyn cael cyfle i edrych o gwmpas y dref. Wedyn cael cinio cyfeillgarwch yn Eglwys Crist. Gwelsom gyflwyniad o’r gwaith a wnaed i addasu’r Eglwys ym 2007/8. Mae’r adeilad yn awr yn fodern, cyfforddus ac aml bwrpas, ac sydd yn cael ei ddefnyddio am lawer o weithgareddau. Wedyn aethom ymlaen i Eglwys Llanycil i weld yr arddangosfa ‘Byd Mary Jones’. Mawr oedd y croeso ac mae’r arddangosfa yn werth ei gweld. Gwelsom hefyd feddau rhai o enwogion y cylch fel Parch. Thomas Charles, ei deulu, Parch. Lewis Edwards, y genhades annwyl Miss Gwen Rees Roberts, Dafydd Cadwaladr (sef tad Betsi




*Y pererinion o Lerpwl yn Llanycil*

Rhifyn 16 tudalen_Tud 8 Mehefin.qxd 06/08/2015 12:21 Page 14



*Parch. Carwyn Siddall, gweinidog yr Hen Gapel, Llanuwchllyn*

Cadwaladr) a Bob Tai'r Felin. Aethom ymlaen i'r Hên Gapel Llanuwchllyn. Croesawyd ni yno gan y Parchedig Carwyn Siddall. Wedi gwasanaeth byr cawsom dipyn o hanes y Capel. Dyma Eglwys gyntaf yr Annibynwyr ym Meirionnydd. Ganwyd Michael D. Jones, un o sylfaenwyr y Wladfa, yn y tŷ capel ac mae ef a'i dad wedi eu claddu yn y fynwent.

Cyn cychwyn adref cawsom bryd o fwyd ardderchog yng Ngwesty'r Eryrod yn Llanuwchllyn a chyraeddasom yn ôl i



***Aeron Jones (cysodwr Yr Angor) a Diane o Lerpwl yn cael swper gyda ni yn Llanuwchllyn***

Lerpwl am chwarter i ddeg yn flinedig ond wedi cael diwrnod ardderchog. Diolch i Roderick a Norma am wneud yr holl drefniadau.

Byddwn yn gorffen rhaglen yr haf gyda



***Pavlova, Gwesty yr Eryrod, Llanuwchllyn***

bwffe yng Nghlwb Criced Lerpwl ar nos Fawrth, Gorffennaf 14. Ac yna ar y nos Fawrth wedyn bydd Pwyllgor y Gymdeithas yn cyfarfod i orffen trefnu'r rhaglen am y tymor nesaf.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.
Cysodwyd ac argraffwyd gan
Aeron Jones, Tŷ'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Rhifyn 16 tudalen_Tud 8 Mehefin.qxd 06/08/2015 12:21 Page 15

## Pigion o'r Ŵyl (parhad)

**Nos Sadwrn, 30 Mai yn Penny Lane.** Lleoliad arall: Capel y Wesleaid Saesneg, Elm Hall Drive sy'n dal 350 a buan y llenwyd hwn hefyd i'r Cyngerdd Cymraeg. Anrhydeddwyd yr



*Manon Easter Lewis, arweinydd y Côr a Trebor, Ben a Siôn*



*Côr Merched Edeyrnion*



*Yr Athro Huw Rees*

Athro Emeritws Huw Rees (Llywydd Undeb Gorawl Cymry Lerpwl) fel Gŵr Gwadd y Noson a rhoddodd araith gryno gan ddiolch am y fenter fawr oedd yn troi allan yn gymaint o lwyddiant ysgubol.

Bonws oedd cael dau unawdydd adnabyddus iawn yn Trebor Edwards, y bugail o Betws Gwerfyl Goch a'r canwr opera, Siôn Goronwy o Dalybont, ger Y Bala, ond sy'n crwydro Ewrop y blynyddoedd hyn.

### Y Sul (31 Mai 2015)

Dyma ddiwrnod y moli a diwrnod yr addoli, y gweddïo a'r ymgysegru, a byddai pobl y Mimosa wrth ei bodd, y mwyafrif



*Parchedigion D. Ben Rees, R. W. Jones a Tegid Roberts*

helaeth ohonynt yn ôl pob sôn ac atgof sydd gennym. Yr oedd yr oedfa o dan lywyddiaeth Dr. D. Ben Rees oedd wedi paratoi Gwasanaeth arbennig ar gyfer y dydd. Llogwyd am £400 Capel y Bluecoat, capel hynaf y cylch, yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif a'r *acoustics* yn fendigedig i'r canu ond nid i'r offeiriaid a'r gweinidogion. Ond yr oedd y tri ohonynt yn hen law ar gyflwyno a defnyddio llais, sef D. Ben Rees, y Parchedig Robert W. Jones, Wrecsam (y pregethwr gwadd), a'r Canon Tegid Roberts, Llanrug a fu allan yn gweinidogaethu yn y Wladfa. Cymerwyd rhan gan Ysgol Gynradd yr Hendre, Trelew, yn ei coch – lliw Lerpwl. Yr oedd ei Phrifathrwes Catrin yn cael y gorau allan ohonynt.

Dymunwyd yn dda i Ysgol yr Hendre oedd yn teithio y pnawn hwnnw i Wersyll yr Urdd yn Llanuwchllyn a chyflwynodd Trysorydd y Gymdeithas (Rachel Gooding) rodd anrhydeddus iddynt ar ein rhan ac am ddod yr holl ffordd i Gymru a Lerpwl. Synnwyd pawb ohonom am y wybodaeth fod yr offrwm yn Oedfa'r bore, wedi cyrraedd y swm o £809. Gwelir y rhoddion ar y platiau yn y llun uchod.



Trefnwyd Cinio Sul i bawb o'r gynulleidfa yn Ystafell yr Ysgol a daeth cwmni preifat i gynorthwyo chwiorydd y Pwyllgor a Chapel Bethel i baratoi gwledd i ni. Mawr oedd y cymdeithasu. Cefais air gyda Elfyn Thomas, yn wir cyfle ddiolch iddo am drefnu un bws dros yr Ŵyl (48 yn y dathlu hwn) a bws arall ar gyfer Sadwrn yn unig. Nid y rhain oedd yr unig fysiau, daeth bws yn enw Cymdeithas Edward Llwyd gan gerdded o Otterspool i Princes Dock o dan arweiniad Alun Davies, Woolton, y bore hwnnw, yna bws o Lansannan, bws o Gymdeithas Gymraeg Amwythig a bysiau llai o Preston, Rhosllannerchrugog a llawer mangre arall.

### Y Gymanfa Ganu

Am 2 o'r gloch pnawn Sul cawsom Gymanfa Ganu na welwyd mo'i thebyg yn Lerpwl ers y saith degau. Yr oedd y Capel unwaith yn rhagor wedi ei lenwi, tri chant o gantorion ynghyd a dan fatwn R. Ifor Griffith a'r organyddes Margaret Anwyl Williams. Trueni na fuasai Cwmni Teledu o Forgannwg sy'n recordio rhaglenni Dechrau Canu Dechrau Canmol wedi gweld ei cyfle i ddod atom. Gofidiwn ei bod yn amharod iawn i groesi'r ffin i recordio rhaglenni Dechrau Canu. A yw hyn yn



*Blodau'r Sul a'r Ŵyl*



*Elfyn Thomas o Gwmniau Teithiau Elfyn Thomas*

bolisi gan y cwmni teledu neu gan S4C? Ond teledu neu beidio, cafodd yr Arglwydd ei glodfori, a chawsom eiriau addas o enau Llywydd y Gymanfa, David Mawdsley a thraddodwyd y fendith gan y Parchg. Eirian Lewis, Mynachlog Ddu a fu mor ffyddlon i'r holl gyfarfodydd.

Amheuthun oedd gweld cymaint o ddynion mewn Cymanfa, ffenomenon erbyn hyn, a dengys y llun y wyrth honno. Gwyrth o Gymanfa ydoedd, Cofiwn yn glir Gymanfaoedd dyddiau fy mebyd y pnawn hwnnw yn y Bluecoat ac aeth pob un ohonom i'w ffordd ei hun, ar ôl awr a hanner dda o ganu mawl gogoneddus. Ond pob un, yn tystio i'r wefr na ellid mo'i diffinio. Sonia R. Bryn Williams am y Cymry yn 'Trefnu Cymanfa Ganu i'ch plesio', hynny yw y Gwladfawyr a ddaw yn ei tro atom. Do, fe drefnwyd Cymanfa Ganu yn 2015 yn Lerpwl ar gyfer y Gwladfawyr ond nid i blesio neb ond i ddatgan gwerthfawrogiad o aberth y 162 a adawodd ddociau Lerpwl yn 1865 am y lle diffaith a elwir bellach yn Borth Madryn. Trodd y freuddwyd yn rialiti a chawsom ninnau ennyd i'w hedmygu a'i anwylo fel ein hynafiaid dewr a da.



Côr Ysgol yr Hendre yn y capel hynafol



Ted Clement-Evans yn sgwrsio ag un o deithwyr taith Elfyn Thomas





Morfudd Williams, Moreton wedi llwyddo i ddod atom ac yn mwynhau dwy gyfrol a gyflwynwyd iddi



Cantorion Bethel yn moliannu



R. Ifor Griffith a Margaret Anwyl Williams



David Mawdsley a'i briod Penny



Darlun o'r dynion yn moliannu